# Tyfu ar gyfer twf

**E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – rhifyn Hydref 2024.**

Croeso i'n E-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

## Beth sy'n digwydd ym maes garddwriaeth?

**Adroddiad Arbennig: Pentref Garddwriaeth Sioe Frenhinol Cymru Dydd Llun 22 – 25 Gorffennaf 2024**.

Cynhaliwyd y digwyddiad mwyaf ar gyfer Garddwriaeth yng Nghymru'r haf hwn. Roedd yr arddangosfeydd a'r sgyrsiau yn gynrychiolaeth o'r radd flaenaf o'r diwydiant Garddwriaethol yng Nghymru. Arweiniwyd y pentref gan Gyfarwyddwr Anrhydeddus Cynorthwyol Garddwriaeth y Sioe, Adam Jones (Adam yn yr Ardd), a oedd yn gweithio ochr yn ochr â rhaglen Arddwriaeth Cyswllt Ffermio, Pwyllgor Garddwriaeth CAFC a staff yr elusen. Diolch yn arbennig i'r holl noddwyr, gan gynnwys Synnwyr Bwyd Cymru, Bwyd Powys Food - Cultivate a Bwydydd Castell Howell, a'r holl sefydliadau a gydweithiodd i godi proffil ein diwydiant garddwriaethol gwych.






Ymwelodd llawer o bobl bwysig â'r pentref, gan gynnwys Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Agorwyd y Pentref yn swyddogol gan Sue Kent, un o gyflwynwyr Gardener's World.

Darlledodd Terry Walton o Radio Wales Plotcast o'r llwyfan, a bu rhaglen Farming Today ar Radio 4 hefyd yn cynnal trafodaeth banel. Gallwch wrando ar ychydig o sylw yn y cyfryngau o Bentref Garddwriaeth Sioe Frenhinol Cymru ar Country Focus - Diwydiant sy'n Tyfu! - BBC Sounds a Farming Today - 06/08/2024: BBC Sounds .

Lansiwyd Calendr Garddio Ysgolion yn y Sioe, ynghyd â'r prosiect Llysiau o Gymru i Ysgolion. Cyhoeddwyd enillydd Her yr Academi yr Ifanc ar y llwyfan hefyd, sef ein tyfwr cofrestredig Cyswllt Ffermio ein hunain, Ellen Firth, sy'n rhedeg Fferm Flodau a Siop Flodau yn Llanfair Dyffryn Clwyd.



Croesawodd y Pentref lawer o siaradwyr arbenigol gan gynnwys Dr. Amber Wheeler a'r Hanesydd Bwyd Cymreig Carwyn Graves. Gwelsom arddangosiadau coginio gan y cogydd Nerys Howell, ochr yn ochr â sgyrsiau gan arbenigwyr fel ADAS, yr Ymgynghoriaeth Ffermio Cynaliadwy, Bwyd Caerdydd, Adam Alexander, sef y Ditectif Hadau gyda Our Food 1200, a Fferm Bremenda Isaf.



Roedd pebyll y pentref yn cynnwys yr **Eisteddflodau** a **Garddle** gyda chystadlaethau blodau a garddwriaeth. **Tawelwedd -** Crëwyd **gardd synhwyraidd** gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a ategwyd gan gerfluniau gan www.firstofmarch.com.



Roedd **Dysgubor – Pafiliwn Addysg** yn hyrwyddo gyrfaoedd a chyfleoedd dysgu ym maes garddwriaeth, gan gynnwys y sefydliadau canlynol:

- Lantra - yn cynnig cymorth gyda gyrfaoedd ym maes Garddwriaeth a thu hwnt
- Coleg y Mynydd Du - Sgiliau addysgu ar gyfer gweithredu hinsawdd ac addasu
- Cynghrair Gweithwyr Tir - Undeb democrataidd a arweinir gan aelodau
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - yn cynnig hyfforddeiaeth garddwriaeth
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol - yn cefnogi gerddi cymunedol a ffermydd cymdeithasol
- Coleg Penybont - Coleg arobryn gyda phedwar campws.
- Dysgu o Bell IBERS - yn rhagori mewn cyrsiau ôl-raddedig



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

- Menter Môn a Tech Tyfu - rhaglen amaeth-dechnoleg, sy'n cynnal Tyfwyr; Fungi Foods a Micro Acres Cymru.
- Grŵp Colegau NPTC Castell-nedd Port Talbot - un o'r mwyaf yng Nghymru.
- Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd – Cyfoeth Naturiol Cymru

**Y Farchnad - Marchnad Tyfwyr**, a drefnwyd gan raglen Arddwriaeth Cyswllt Ffermio i arddangos tyfwyr masnachol. Bu llawer o'r tyfwyr hyn hefyd yn creu arddangosfeydd gwych yn **y Garddwelyau ' Sioe Micro – Micro Gardens'** y tu allan i'r pebyll mawr.
Roedd y rhai a gymerodd ran yn cynnwys:-



- Pheasant Acre Plants - Enillwyr Sawl Gwobr Medal Aur yr RHS.
- Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru - Sefydlu Cymru fel rhanbarth gwin o safon uchel.
- Bwyd Powys Food - Cultivate Cefnogi economi bwyd lleol gwydn.
- Flowers From The Farm - arddangosfa wych o flodau ar ffurf bwa.
- West Wales Willows gyda Chasgliad Planhigion Cenedlaethol o Helyg.
- Synnwyr Bwyd Cymru Cyd-greu system fwyd i Gymru.
- Farmyward Nurseries & The House Plant Place Dros 2000 o blanhigion gwydn.
- Sefydliad Siartredig Garddwriaeth CIH Llais proffesiynol ar gyfer garddwriaeth.
- Gardd Farchnad Alfie Dans Bocsys llysiau arobryn gydag egwyddorion organig.
- Bannau Acres - rhwydwaith o ffermydd annibynnol lleol.
- Cyfrannodd Langton's Farm a Bonvilston Edge at yr arddangosiadau hefyd.

## Diweddaru eich gwybodaeth






**Ar y Soffa gyda Darragh McCullogh - un o brif dyfwyr Iwerddon**
Cynhaliwyd gweminar gyda chyfweliad a sesiwn holi ac ateb gyda Darragh ym mis Awst. Os wnaethoch chi ei golli, peidiwch â phoeni, rydym yn gobeithio cynnal mwy o sesiynau gydag ef yn y dyfodol.

**Ydych chi'n meddwl am sut i wella eich busnes garddwriaethol?**
Ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am yr arferion garddwriaethol gorau, a hyfforddiant y gallwch ei gwblhau yn eich amser eich hun? Gweler ein modiwlau E-ddysgu. Mae'r rhain yn adnoddau gwych i unrhyw un sy'n gweithio ar eich fferm!

- Diwydrwydd dyladwy ar gyfer tyfwyr ar raddfa fach
- Compostio ar y safle ar gyfer eich menter arddwriaethol
- Canllaw cyflym i adnabod rhai or plâu clefydau chwyn mwyaf cyffredin mewn cnydau
- Ac mae modd i chi gael rhagor o gyngor technegol ar gnydau penodol yma.

**Chwilio am fwy o gymorth?**
Gallwch gael hyd at 12 awr o gymorth busnes garddwriaeth trwy Raglen Garddwriaeth Cyswllt Ffermio. Cysylltwch â horticulture@lantra.co.uk. Ydych chi'n chwilio am gyfleoedd newydd trwy'r cyfryngau cymdeithasol? Beth am drefnu sesiwn farchnata digidol gyda ni heddiw. Gallwch hefyd ymuno â chymaint o Rwydweithiau ag sydd eu hangen arnoch, i gael cyngor sector-benodol. Cliciwch yma.

**Cymorth Grant:** Nodwch y dyddiadau ar gyfer cynlluniau gwledig. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol, neu **horticulture@lantra.co.uk** am gyngor.

**Tudalen Facebook Rhwydwaith Tyfwyr Cymru:** Ymunwch â'n grŵp caeedig ar Facebook, sef 'Rhwydwaith Tyfwyr Cymru' i glywed am ddigwyddiadau ac ymweliadau astudio, ac i rannu dysgu a phrofiadau rhwng cymheiriaid sydd ar gael yma .

## Beth sydd ymlaen?

Gwnaethom ddarparu 166 cwrs a 56 sesiwn cymorth busnes garddwriaethol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024. Ac, yn yr amser hwnnw, cafodd 31 o fusnesau eu sesiwn gymorth gyntaf gyda ni. Mae gennym lawer mwy o ymweliadau safle gwych a digwyddiadau wedi'u cynllunio hefyd. Peidiwch â cholli allan a chofrestrwch ar gyfer mwy o ddigwyddiadau yma heddiw.

- Dydd Mawrth 24 Medi 10:30 -4:00, **Meithrinfa Planhigion Gardd Hardy Cottage,** Meithrinfa Priory Lane, Swydd Hampshire .
- Dydd Mercher 2 Hydref 9:30am -2pm - **Tyfu gwreiddlysiau organig ar raddfa cae,** Ceredigion.

- Dydd Iau 3 Hydref, 2:00pm - **Arallgyfeirio Garddwriaeth: Treialu cynhyrchiant o godlysiau-grawnfwyd fel ffynhonnell fwyd i bobl** - Llanarthne
- Dydd Gwener 11 Hydref, 10:30 am - **Arallgyfeirio Garddwriaeth: Lansio menter pwmpenni casglu eich hun ar eich fferm** - Llanvair Discoed, Cas-gwent
- Dydd Llun 14 Hydref, 2:00 pm **- Garddwriaeth IPM: Rheoli chwilod naid mewn cnydau bresych ar raddfa gardd farchnad** – Llanfairpwllgwyngyll
- Dydd Llun 25 a dydd Mawrth 26 Tachwedd - **Ffair Aeaf Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru**

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn llwyr yn nwylo'r defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu fuddolion. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost/ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn gwarantu, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.